# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 6 Ebrill 2004

**R – Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W – Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i'r Prif Weinidog*

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A yw'r Prif Weinidog wedi cysylltu â'r Swyddfa Gartref ynghylch adroddiad diweddar y Swyddfa Gartref ar geiswyr lloches sy'n dod i Brydain heb eu harchwilio. (WAQ34106)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth*

**Elin Jones (Ceredigion);** A wnaiff y Gweinidog ddatgan beth oedd costau rhedeg a gweinyddu byrddau'r Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad sydd yn ei bortffolio, ar gyfer 2002-03 a 2003-04. (WAQ34109) **W**

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd);** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau y bydd yr arolwg o'r Diwydiannau Creadigol fydd yn cael ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf, yn destun ymgynghori cyn ei roi ar waith, ac a all ddweud pryd y caiff y cyfnod ymgynghori ei gynnal. (WAQ34103)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y modd y mae'r Fenter Coedwigaeth yn hyrwyddo menter yng Nghymru. (WAQ34089)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A oes asesiad wedi'i gynnal o'r manteision y mae gwaith hyrwyddo twristiaeth y Fenter Coedwigaeth yn dod i Gymru. (WAQ34090)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad a yw Llywodraeth y Cynulliad wedi cynghori Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru i ddarbwyllo darpar ymgeiswyr am grantiau ar gyfer prosiectau ymwelwyr i beidio â cheisio am grantiau o'r fath. (WAQ34104)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa gyngor y mae Llywodraeth y Cynulliad wedi'i roi i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) ar y grantiau i brosiectau ymwelwyr. (WAQ34096)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Faint o swyddi y bydd y prosiect Wave Dragon yn eu creu. (WAQ34099)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Faint o arian bydd Llywodraeth y Cynulliad yn ei wario ar ymgynghorwyr a fydd yn cynhyrchu adroddiad ar ddatblygiad strategaeth i sicrhau bod Cymru yn cael y gorau o ddigwyddiadau yng Nghymru. (WAQ34101)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa rai o'r diwydiannau creadigol yng Nghymru fydd yn destun adolygiad gan Awdurdod Datblygu Cymru. (WAQ34102)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad*

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A yw'r Gweinidog wedi gwneud unrhyw sylwadau ar gynigion San Steffan i leihau fflyd pysgota Prydain. (WAQ34105)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog esbonio faint o geiswyr aflwyddiannus am Tir Gofal sydd wedi methu â bodloni'r amodau ymaelodi bob blwyddyn o 1999 tan heddiw. (WAQ34088)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus*

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Faint o aelodau byrddau'r Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad sydd o dan 30 oed. (WAQ34085)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Faint o aelodau byrddau'r Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad sydd o gefndir lleiafrif ethnig. (WAQ34086)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Faint o bobl sy'n gwasanaethu ar fyrddau'r Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad a faint ohonynt sy'n fenywod. (WAQ34087)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Val Lloyd (Swansea East);** Beth yw sefyllfa bresennol y Cynulliad Cenedlaethol o ran fflworideiddio dwr. (WAQ34113)

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr);** Faint o unigolion ers Mai 1999 y codwyd tâl arnynt am dderbyn gofal cymdeithasol personol. (WAQ34091)

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr);** Faint o gyflwyniadau y mae'r Gweinidog wedi'u derbyn ynghylch unigolion y codwyd tâl arnynt, heb fod angen, am ofal cymdeithasol personol. (WAQ34092)

**Elin Jones (Ceredigion);** A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei hamserlen ar gyfer sefydlu Uned Cardiac yn Ysbyty Bronglais, Aberystwyth. (WAQ34093) **W**

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Faint fydd Ysbyty Gwynedd yn ei godi am barcio ceir, pan fydd yn cyflwyno hynny ym mis Mai. (WAQ34095)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth y Cynulliad i atal deintyddion rhag cymryd grantiau mawr am gleifion y GIG ac yna fynd yn breifat. (WAQ34097)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog wneud datganiad ar p'un a yw GIG Cymru yn bwriadu cwtogi’r gyllideb ar gyfer hyfforddi nyrsys o Ebrill 2005. (WAQ34100)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio*

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r broblem gyffuriau ar Ystâd Bon-y-Maen, Abertawe. (WAQ34094)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad mewn perthynas ag adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol mai dim ond 37% o Orchmynion Triniaeth a Phrofi Cyffuriau a oedd yn cael eu cwblhau. (WAQ34107)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A yw'r Gweinidog wedi gwneud unrhyw gyflwyniadau i'w chydweinidogion yn San Steffan neu i'r Comisiwn Ewropeaidd ynghylch effaith y Gyfarwyddeb Oriau Gwaith ar y Gwasanaethau Tân wrth gefn. (WAQ34108)